**Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng Cenedlaethau**

22 Ionawr 2024: 11:00 – 12:30pm ar Microsoft Teams

**Yn bresennol**

- Delyth Jewell MS, **Cadeirydd**, Senedd Cymru
- Rhys Jackson, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Julie Morgan AS, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
- Catrin Hedd Jones, Prifysgol Bangor
- Dereck Roberts, NPC Cymru
- Heather Ferguson, Age Cymru
- Marie-Clare Hunter, Bwrdd Cynghori ENRICH Cymru
- Rebecca Deverell, NUS Cymru
- Phoebe Brown, Caffi Trwsio Cymru
- Rachel Bowen, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Dave McKinney, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Leola Roberts-Biggs, Senedd Ieuenctid
- Gethin Edwards, Llywodraeth Cymru
- Ioan Bellin, Aelod Staff o dîm Delyth Jewell AS
- Ruth Parness, Llywodraeth Cymru

**Ymddiheuriadau**

- Peredur Owen Griffiths AS, Senedd Cymru
- Ellis Peares, Senedd Ieuenctid
- Mirain Llwyd Roberts, Gwynedd Oed Gyfeillgar
- Merryn Thomas, Prifysgol Abertawe
- Deb Morgan, Prifysgol Abertawe

**Gweithredu**

1. Bod unrhyw aelodau o'r Grŵp Trawsbleidiol a hoffai siarad yn y cyfarfod nesaf ar newid hinsawdd yn cysylltu â Rachel Bowen neu Rhys Jackson

**Croeso a Chyflwyniadau – Delyth Jewell AS – Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Ni chafwyd unrhyw faterion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Trafodaeth ar Ragfarn Oed gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

Dywedodd Julie Morgan na ddylai oedran fyth leihau hawliau rhywun i gael eu trin â pharch ac y dylai darparwyr gwasanaethau gynnal hawliau pobl hŷn. Dywedodd fod

undod rhwng cenedlaethau yn bwysig er mwyn sicrhau bod cymdeithas yn deall bod rhagfarn oed yn annerbyniol. Tynnodd sylw at strategaeth Llywodraeth Cymru - Cymru o blaid Pobl Hŷn sydd yn ei thrydedd flwyddyn, a bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau Cymru lle nad yw rhagfarn oed yn cyfyngu ar botensial nac yn effeithio ar y gwasanaethau y mae pobl hŷn yn eu cael. Soniodd am y gwaith o amgylch Cymru i sicrhau cymunedau o blaid pobl hŷn, gan nodi ei bod wedi cyfarfod swyddogion ledled Cymru sydd wedi cynnwys undod rhwng cenedlaethau yn eu cynlluniau.

Tynnodd Julie Morgan sylw at gronfa unigrwydd ac ynysigrwydd Llywodraeth Cymru, fel rhan o strategaeth drawslywodraethol Cymunedau Cysylltiedig, sy'n ariannu prosiectau sy'n adeiladu undod rhwng cenedlaethau.

Er mwyn mynd i'r afael â rhagfarn oed, dywedodd Julie Morgan y dylai gweithio i sicrhau bod cyfryngau prif ffrwd a chymdeithas yn gwerthfawrogi cyfraniadau pobl hŷn fod yn flaenoriaeth allweddol yn hytrach na'u hystyried fel 'baich' fel y cânt eu portreadu'n aml. Nododd waith y Comisiynydd Pobl Hŷn sydd wedi creu canllawiau i herio sut mae pobl hŷn yn aml yn cael eu portreadu. Dywedodd ei bod yn cyfarfod â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n rheolaidd i drafod cynnydd o ran rhagfarn oed, gan nodi gweminar Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar 1 Chwefror ar hawliau dynol yng Nghymru.

Nododd y Dirprwy Weinidog waith Llywodraeth Cymru gydag Age Cymru ac fe'i comisiynwyd yn ddiweddar ar gyfer ymgyrch hawliau pobl hŷn. Dywedodd fod Age Cymru wedi paratoi pecyn cymorth hawliau dynol sy'n cael ei ddefnyddio i gychwyn sgyrsiau ar hawliau dynol. Nododd hefyd fod Age Cymru yn mentora grŵp o wirfoddolwyr hŷn i weithredu fel llysgenhadon hawliau dynol i fynd allan i gymunedau a threfnu sgyrsiau am hawliau a rhagfarn oed.

Tynnodd Dereck Roberts sylw at y gwaith llwyddiannus y mae partneriaid heneiddio'n dda Abertawe yn ei wneud a dywedodd ei bod yn anodd gwybod pwy yw'r hyrwyddwr pobl hŷn ym mhob awdurdod lleol. Gofynnodd Delyth Jewell i'r Dirprwy Weinidog p'un ai a yw gwaith hyrwyddwyr pobl hŷn yn wahanol yn dibynnu ar y lleoliad, gan nodi efallai bod digwyddiadau rhwng y cenedlaethau'n cael eu hysbysebu'n well mewn trefi prifysgol. Nododd Julie Morgan fod materion rhwng

cenedlaethau hefyd yn effeithio ar bobl iau, gan ddweud ei bod yn ansicr sut mae pob un yn gweithio.

Tynnodd Heather Ferguson sylw at y gwaith y mae Age Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â rhagfarn oed, gan gynnwys ymgyrch ffotograffiaeth o'r enw 'Beth yw Bod yn Hŷn' sy'n rhoi golwg fwy realistig ar heneiddio, yn ogystal â hyfforddiant ar ymwybyddiaeth. Dywedodd fod mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn broblem fawr yn ôl yr hyn y mae Age Cymru yn ei glywed gan bobl hŷn, gan nodi bod mynediad i gymunedau yn bwysig ar gyfer heneiddio. Rhoddodd Julie Morgan ganmoliaeth i'r ymgyrch 'Beth yw Bod yn Hŷn' a dywedodd fod trafnidiaeth gyhoeddus yn dioddef oherwydd nad yw pobl yn ei defnyddio ac felly yn colli arian. Dywedodd Gethin Edwards y bydd yn rhannu'r delweddau hyn o heneiddio cadarnhaol gyda thîm cyfathrebu Llywodraeth Cymru.

Dywedodd Heather Ferguson fod Age Cymru yn sylwi bod pobl yn amharod i fynd allan ers Covid a defnyddio bysiau unwaith eto. Dywedodd Delyth Jewell y byddai o fudd i'r grŵp edrych ar drafnidiaeth gyhoeddus yn fanylach rywbryd eto.

Gofynnodd Catrin Hedd Jones a yw Llywodraeth Cymru wedi edrych ar fodel yr Alban o weithio rhwng cenedlaethau sy'n fodel cenedlaethol cryf o weithio rhwng cenedlaethau. Dywedodd Julie Morgan nad yw hi wedi cael unrhyw gysylltiad â'r Alban yn bersonol, ond nododd fod hyn yn rhywbeth y gellid edrych arno.

Dywedodd David McKinney fod y model o blaid pobl hŷn yn cynnwys pobl hŷn a chymunedau yn y broses benderfynu a lle mae partneriaethau o blaid pobl hŷn yn cynnwys grwpiau, mae rôl i hyrwyddwyr pobl iau yn y grwpiau hyn weithio ar faterion rhwng cenedlaethau. Tynnodd Gethin Edwards sylw at bwysigrwydd iaith wrth weithio tuag at gymunedau o blaid pobl hŷn.

Tynnodd Dereck Roberts sylw at y ffaith bod trafodaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn cyfarfod diweddar o'r Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol, gan nodi tystiolaeth anecdotaidd bod diffyg bysiau'n golygu nad yw pobl iau a hŷn yn gallu cael mynediad i ganol trefi sydd mewn rhai achosion yn effeithio ar gyflogaeth. Gofynnodd Delyth Jewell a ddylai ffocws y Dirprwy Weinidog fod ar annog pobl i fynd allan a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Nododd y Dirprwy Weinidog y gostyngiad yn y defnydd o'r cerdyn bws, a dywedodd ei bod yn bwysig iddi annog pobl hŷn i fynd allan o'r tŷ.

Dywedodd Rachel Bowen ei bod yn amser da i feddwl am heneiddio gan fod y Ganolfan Heneiddio'n Well wedi lansio ymgyrch ar ragfarn oed - gan argymell bod y grŵp trawsbleidiol yn edrych ar y gwaith hwn. Dywedodd Julie Morgan fod hyn yn bwysig i nodi rhagfarnau anymwybodol pob un ohonom.

Siaradodd Delyth Jewell am fanteision hyrwyddo gweithgareddau rhwng cenedlaethau i ddod â chenedlaethau at ei gilydd. Roedd Julie Morgan yn cytuno. Nododd Gethin Edwards y bydd gwaith rhwng cenedlaethau Llywodraeth Cymru eleni yn canolbwyntio mwy ar y sector chwaraeon. Gofynnodd Delyth Jewell i'r grŵp trawsbleidiol anfon unrhyw enghreifftiau o arfer da rhwng cenedlaethau pan oeddent ar gael.

Gofynnodd Catrin Hedd Jones a oes unrhyw berson yn y grŵp wedi gweithio gyda'r cyfryngau i fynd i'r afael â rhagfarn oed. Dywedodd Heather Ferguson fod Age Cymru wedi gweithio gyda'r cyfryngau a newyddiadurwyr i siarad am y syniadau hyn. Gofynnodd Phoebe Brown am adnoddau y gellid eu defnyddio'n fewnol ar gyfer sefydliadau llai. Rhannodd Rhys Jackson waith a wnaed gan y Comisiynydd ar Ganllawiau i'r Cyfryngau a Mynd i'r Afael â Rhagfarn Oed wrth Gyfathrebu.

**Materion yn Codi – Gofod Trafodaeth Gyffredinol**

Addawodd Rachel Bowen ddosbarthu adroddiad newydd gan y Comisiynydd ar allgáu digidol pan gaiff ei gyhoeddi. Anogodd Delyth Jewell y grŵp trawsbleidiol i anfon unrhyw adroddiadau a allai fod ganddynt at Rachel Bowen neu Rhys Jackson i'w dosbarthu i'r grŵp.

Siaradodd Heather Ferguson am waith Tasglu Atal Cwympiadau, gan nodi gwaith posibl gyda Sgowtiaid Cymru i'w dysgu am gwympiadau a'u peryglon. Cododd Marie-Clare Hunter y posibilrwydd o greu cysylltiadau â rhaglen Fagloriaeth Cymru.

## Unrhyw Fater Arall

Siaradodd Delyth Jewell am gyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol, gan nodi y gallai newid hinsawdd fod yn bwnc penodol i'w drafod. Cytunodd Heather Ferguson, gan nodi y bydd Age Cymru yn llunio datganiad polisi ar newid hinsawdd cyn bo hir. Dywedodd Rachel Bowen y byddai newid hinsawdd yn berthnasol i'r sgyrsiau a gafwyd yn y cyfarfod hwn am drafnidiaeth gyhoeddus. Cefnogodd Marie-Clare Hunter y pwnc hwn, gan nodi bod trwsio ac ailddefnyddio eitemau yn rhywbeth cyffredin ymhlith pobl hŷn. Cytunodd Phoebe Brown â hyn, gan nodi nad yw hyn yn rhywbeth mor gyffredin ymhlith pobl iau.

Awgrymodd Delyth Jewell **Drafnidiaeth Gyhoeddus**, **Mynd i'r afael â Newid Hinsawdd yn y Cwricwlwm,** a **Dysgu oddi wrth Cenedlaethau Eraill** fel pynciau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf. Anogodd aelodau'r grŵp trawsbleidiol i gysylltu os ydynt yn dymuno siarad yn y cyfarfod nesaf.

## Cloi

**Dyddiad y Cyfarfod nesaf**: 16 Mai 2024 ar Microsoft Teams